# Dylunio, gweithgynhyrchu a gorffen adferiadau metelig sengl a chyfannol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn disgrifio dylunio a gweithgynhyrchu adferiadau metelig sengl ac adferiadau cyfannol gan ddefnyddio technegau â llaw neu dechnegau digidol. Mae gan adferiadau metelig sengl yr un ffurf anatomegol â dannedd ac maent yn cynnwys mewnosodiadau, trosgaenau a choronau metelig; mae adferiadau cyfannol metelig sengl – pyst a chreiddiau – yn derbyn ffurfiau anatomegol arnynt. Mae cast yn ffurf gadarnhaol, gywir yn ddimensiynol, o ardaloedd o geudod y geg wedi'i gynhyrchu o argraff negyddol. Mae dei yn ddarn o gast o ddant unigol. Bydd angen i chi ddylunio a gweithgynhyrchu'r adferiadau cyfannol metelig sengl sydd wedi'u rhagnodi, a'u gorffen nhw yn barod i'w ffitio yng ngheg yr unigolyn.

Yn y safon hon, defnyddir y term 'cleient' i olygu'r aelod o'r tîm gofal iechyd y geg sydd wedi rhagnodi'r adferiad a wneir yn bwrpasol. Gall cleientiaid ddod o'r tu allan i'r sefydliad (fel labordai eraill, ymarferwyr deintyddol, ysgolion hyfforddi) neu gallant fod yn fewnol (mewn ysbyty deintyddol). Yr unigolyn yw'r sawl y gwneir yr adferiad ar ei gyfer.

Bydd angen i ddefnyddwyr y safon hon sicrhau bod ymarfer yn adlewyrchu gwybodaeth a pholisïau cyfredol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael at a dehongli'n gywir yr holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
2. gweithio'n ddiogel bob amser ac yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol
3. delio'n brydlon ac yn effeithiol ag unrhyw broblemau o fewn eich rheolaeth a rhoi gwybod am broblemau nad allant gael eu datrys
4. cyfathrebu â phobl eraill berthnasol yn ôl cyflymder, modd a lefel sy'n briodol i'w dealltwriaeth a'u hanghenion, a'r hyn sy'n well ganddynt
5. nodi a lleihau peryglon a risgiau yn y gweithle
6. casglu holl wybodaeth y fanyleb ynghyd sy'n ofynnol i ddylunio a gweithgynhyrchu'r adferiadau metelig sengl a'r adferiadau cyfannol
7. cadarnhau cywirdeb y fanyleb gyda phobl eraill berthnasol
8. pennu paramedrau dylunio'r adferiad a'r is-strwythur wrth ffurfio'r patrwm
9. dewis y cydrannau, y deunyddiau a'r cyfarpar angenrheidiol a chadarnhau eu bod yn addas at y diben
10. gosod y cyfarpar gweithgynhyrchu yn unol â'r fanyleb
11. gweithgynhyrchu'r adferiadau metelig sengl a'r adferiadau cyfannol gan ddefnyddio dulliau a thechnegau priodol
12. monitro'r broses weithgynhyrchu a'i haddasu fel bo'r angen
13. tynnu neu adfer y cynnyrch wedi'i weithgynhyrchu gan ddefnyddio dull priodol sy'n rhyddhau'r eitem heb achosi difrod
14. gwirio bod y cynnyrch wedi'i weithgynhyrchu yn cyfateb i'r fanyleb a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol
15. glanhau a gorffen yr adferiad yn effeithiol a'i baratoi a'i becynnu'n ddiogel i'w ddanfon, ynghyd â chyfarwyddiadau i'r claf a'r cleient
16. danfon yn unol â rheoliadau statudol y Deyrnas Unedig ar gyfer Dyfeisiau Deintyddol a Wnaed yn Bwrpasol
17. gwaredu gwastraff yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
18. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y ddeddfwriaeth, y canllawiau, y polisïau, y gweithdrefnau a'r protocolau presennol sy'n berthnasol i'ch ymarfer yn y gwaith, ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt
2. cwmpas a chyfyngiadau eich cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd eich hun fel y bo'n berthnasol i'ch rôl
3. sut i gael at a dehongli'r holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
4. gweithdrefnau penodol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau sydd y tu hwnt i'ch cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd
5. y ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw weithred neu anwaith a allai fod yn anniogel/yn niweidiol i chi neu i eraill
6. sut i gyfathrebu â phobl eraill berthnasol yn ôl cyflymder, modd a lefel sy'n briodol i'w dealltwriaeth a'u hanghenion, a'r hyn sy'n well ganddynt
7. y peryglon a'r risgiau a allai godi wrth i chi gyflawni eich rôl a sut y gallwch eu lleihau
8. y defnydd cywir o unrhyw gyfarpar a chyfarpar diogelu personol (PPE) i amddiffyn eich iechyd a'ch diogelwch chi a phobl eraill
9. egwyddorion dylunio a gweithgynhyrchu digidol, a'r defnydd ohonynt
10. cyfarpar, dulliau a thechnegau gweithgynhyrchu digidol perthnasol
11. yr anatomi ysgerbydol, ffisioleg y pen a'r gwddf a morffoleg dannedd
12. strwythur, swyddogaeth a symudiad y cyhyrau orowynebol, gan gynnwys y tafod a'r cymal arlais-fandiblol
13. anhwylderau a chlefydau sy'n effeithio ar geudod y geg
14. etioleg a dosbarthiadau camachludiadau
15. y newidiadau ffisiolegol a phatholegol sy'n gysylltiedig â'r broses heneiddio a thrawma yn gysylltiedig ag amgylchedd y geg
16. pwysigrwydd dargadw'r ligament periodontol a'r newidiadau mewn ystumganfod (*proprioception*) oherwydd colli'r ligament periodontol
17. y ffactorau ehangach (cymdeithasegol, ymddygiadol, amgylcheddol ac economaidd) sy'n cyfrannu at iechyd a salwch y geg
18.

egwyddorion ac ymarfer:

19.

egwyddorion dylunio adferiadau

20. elfennau adferiadau (trosgaenau, coronau, pyst a chreiddiau, mewnosodiadau) a sut mae'r rhain yn cael eu gwneud
21. dosbarthiad ac isddosbarthiad deunyddiau ar sail cyfansoddiad cemegol a strwythur mewnol
22. priodweddau mecanyddol, ffisegol, thermol, cemegol a biolegol deunyddiau
23. cynnyrch ar gyfer gweithgynhyrchu castiau a mowldiau
24. cwyrau a ddefnyddir wrth weithgynhyrchu adferiadau
25. aloiau deintyddol
26. deunyddiau gwrthsafol deintyddol
27. y berthynas rhwng asiadau cemegol a phriodweddau deunyddiau solet
28. deunyddiau argraff, dyblygu a glanhau
29. dulliau o ddatblygu, cynnal a gwella cyfathrebu a gwybodaeth yn gysylltiedig â darparu dyfeisiau deintyddol a wnaed yn bwrpasol
30. dulliau o amddiffyn rhag halogiad a rheoli heintiau wrth drin argraffau sy'n dod i law ac eitemau eraill a fuodd, efallai, yn y geg neu y bwriedir eu rhoi yn y geg; pam mae'n bwysig gwneud hynny
31. egwyddorion sicrhau ansawdd, gan gynnwys cofnodi a samplu yn effeithiol; prosesau a gweithdrefnau ar gyfer sicrhau ansawdd yn eich gweithle
32. dulliau o osod a graddnodi cyfarpar a phrofi bod hyn yn gywir
33. effeithiau addasu cynnyrch gweithgynhyrchwyr i fodloni gofynion y labordy ar briodweddau ffisegol cynnyrch ac ar gynnyrch y mae eu hansawdd wedi'i sicrhau, a goblygiadau cyfreithiol gweithgynhyrchu gwael
34. yr amrywiaeth o gyfarpar a ddefnyddir i ddylunio a gweithgynhyrchu dyfeisiau deintyddol
35. dulliau o ddefnyddio cyfarpar a deunyddiau yn ddiogel, gan gynnwys defnyddio cemegion a sylweddau peryglus eraill
36. dulliau o storio cyfarpar a deunyddiau gwahanol yn ddiogel
37. dulliau glanhau a chynnal a chadw gwahanol fathau o gyfarpar
38. sut i gael gwared ar wastraff yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
39. sut i gwblhau'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad, a'i storio'n ddiogel

SFHOH21

Dylunio, gweithgynhyrchu a gorffen adferiadau metelig sengl a chyfannol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Health |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Health |
| **RCU gwreiddiol** | SFHOH21 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Technegwyr Deintyddol |
| **Cyfres/Set** | Iechyd y geg |
| **Geiriau Allweddol** | Adferiadau, metelig, cyfannol, sengl |